



Cyfle i weithio gyda ni

Manyleb: Cymorth i ddeall nodweddion System Lles Cenedlaethol

Cyflwyniad

Mae'r fanyleb hon yn agored i unrhyw un â diddordeb mewn cyfle i weithio gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Y canlyniad cyffredinol yr ydym yn edrych amdano yw newid i ymagweddau hirdymor holistig ledled y GIG; bydd y cyfle hwn yn cynorthwyo adeiladu ar y weledigaeth a gyflëwyd yn nod 'Cymru Iachach' Llywodraeth Cymru i:

- 1) Adnabod beth fyddai nodweddion System Lles Cenedlaethol yng Nghymru?
- 2) Sut y gellid ei hariannu?
- 3) Sut fedrai Llywodraeth Cymru fesur ei pherfformiad yn seiliedig ar y nodweddion a nodwyd?

Rydym yn croesawu ceisiadau oddi wrth unigolion neu gonsortia â diddordeb mewn elfen unigol neu bob un o elfennau'r gwaith.

Cyn cyflwyno cynnig, rydyn ni hefyd yn cynghori darparwyr â diddordeb i gyfarwyddo â:

- Gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru);
- Canllaw statudol cysylltiedig â'r Ddeddf: 'Rhannu Pwrpas, Rhannu Dyfodol': Shared Purpose, Shared Future;
- Strategaeth Cymru Iachach Llywodraeth Cymru;
- 'Measuring healthcare outcomes - a complex system' Comisiwn Bevan;
- Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd i Gymru;
- 'A decade of austerity in Wales? The funding pressures facing the NHS in Wales to 2025/26' Iechyd Nuffield.

Dylid anfon cynnigion at contactus@futuregenerations.wales 'At Sylw: Elle Henley-Herat' erbyn 5pm, Llun 16 o Fedi. Os wnewch chi gyrraedd y rhestr fer, cewch eich gwahodd i gyflwyno eich syniadau mewn sesiwn yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 23 o Fedi gyda'r bwriad o ddechrau ar y gwaith yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 7 Hydref.

Am wybodaeth bellach os gwelwch yn dda cysylltwch â: Elle Henley-Herat - Elle.Henley-Herat@futuregenerations.wales



Cyd-destun

"Yr hyn y mae Cymru'n ei wneud heddiw, gobeithiwn y bydd y byd yn ei wneud yfory - gweithredu'n fwy na geiriau yw'n gobaith ar gyfer cenedlaethau'n dyfodol". - Nikhil Seth, Y Cenhedloedd Unedig.

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Y Ddeddf") yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Y nod yw peri i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd ac ymroi i atal problemau rhag digwydd, a mynd i'r afael â materion cyffredin drwy fabwysiadu ymagwedd fwy cydgyssylltiedig.

I wneud yn siŵr ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn rhestru saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang

Cyflwynodd y Ddeddf Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol newydd i Gymru ("Y Comisiynydd"), gwarcheidwad buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Ei rôl yw cefnogi'r 44 corff cyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, i weithio tuag at wireddu'r nodau llesiant a monitro ac adrodd ar eu cynnydd. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am rôl y Comisiynydd [yma](#).

Mae'r Ddeddf yn gosod yn ei lle 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n dweud wrth sefydliadau sut i fynd ati i gwrdd â'u dyletswydd o dan y Ddeddf. Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod, wrth wneud penderfyniad, yn talu sylw i'r effaith y gallent ei gael ar bobl a fydd yn byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae yna bum peth sydd angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd dilyn y dulliau hyn o weithio'n ein helpu i weithio'n well gyda'n gilydd, osgoi ailadrodd camgymeriadau o'r gorffennol, a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor a wynebhir gennym.

Pum dull o weithio

Hirdymor - Y pwysigrwydd o greu cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen hefyd, i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion hirdymor.

Atal - Sut y gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u hanghenion.

Integreiddio - Ystyried sut y gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

Cydweithio - Cydweithio gydag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hunan) a fedrai helpu'r corff hwnnw i gwrdd â'i amcanion llesiant.

Ymgyfrannu - Pwysigrwydd ennyn ymgyfraniad pobl â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywioldeb yr ardal a wasanaethir gan y corff.

Gyda chyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol yn teimlo'r wasgfa, a'r galw ar wasanaethau cyhoeddus eraill yn cynyddu, un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yw'r angen i ddarganfod dulliau o wella llesiant pobl, sy'n fforddiadwy ac effeithiol. Mae busnes-fel-arfer yn methu darparu gofal iechyd ataliol sy'n grymuso pobl i wella eu hiechyd a'u llesiant hwy eu hunain. Er gwaethaf y gwelliannau, rydyn ni eto i weld y newid graddfa eang o fewn gofal iechyd sy'n ofynnol ar gyfer lleihau'r galw ar ein gwasanaethau cyhoeddus, sydd o dan y fath bwysau, wrth i'n poblogaeth barhau i gynyddu a hefyd fyw yn hwy.

Mae yna lawer o strategaethau sy'n annog symud tuag at lesiant mwy ataliol, seiliedig yn y gymuned, megis 'Cymru Iachach', sy'n rhoi gweledigaeth strategol glir; fodd bynnag nid yw'n nodi sut y gallai hyn edrych yn ymarferol ar lawr gwlad, ac rydym yn cwestiynu i ba raddau y mae hyn yn sbarduno'r gweithredu gwirioneddol drawsffurfiol sydd ei angen ledled gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys y tu allan i iechyd a gofal cymdeithasol traddodiadol.

Y Gwaith

Bydd y gwaith yn ffocysu ar dri maes; rydyn ni'n croesawu diddordeb y rhai sy'n medru cynorthwyo meysydd unigol, neu bob un o'r tri.

1) Adnabod beth fyddai nodweddion System Lles Cenedlaethol

Rydyn ni'n awyddus iawn i'r gwaith hwn beidio gwrth-ddweud neu ddyblygu'r strategaethau sy'n bodoli eisoes megis 'Cymru Iachach', ond dylai adeiladu ar y weledigaeth a'i chyflwyno mewn dull heriol cadarnhaol. Dylai'r gwaith hwn edrych ar y berthynas rhwng darpariaeth genedlaethol a lleol, yn cynnwys lle mae rhwystrau canfyddedig yn bodoli ar hyn o bryd, gan nodi nodweddion a gwerthoedd ar gyfer ymagwedd genedlaethol a fyddai, petai'n cael ei hymgorffori, yn trawsnewid y modd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno ar lawr gwlad, gan feithrin awtomatiaeth leol i wireddu'r weledigaeth mewn ffordd sy'n diwallu anghenion ac asedau eu hardaloedd, gan ffocysu ar ganlyniadau yn hytrach nag allbynnau.

2) Sut y gellir ariannu System Lles Cenedlaethol

Mae tystiolaeth yn awgrymu mai dim ond 15-20% o iechyd cenedl sy'n dibynnu ar wasanaethau iechyd ac eto mae dros 50% o gyllideb Llywodraeth Cymru'n cael ei ddyrannu i wariant iechyd - mae papur oddi wrth Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Gofal Iechyd Cymdeithasol a Chwaraeon yn gosod diffiniad o atal yng nghyd-destyn gwariant GIG Cymru ac yn nodi bod 74% o'r arian yn y gyllideb ar gyfer 2019-20 i'w wario ar wasanaethau aciwt ac 20% ar atal trydyddol. Bydd y gwaith hwn yn adeiladu ar yr adroddiad gan Ymddiriedolaeth Nuffield sy'n archwilio e.e.

- Pam mae ariannu fel y mae, a'r lefelau o alw cynyddol;
- Prif sbardunwyr gwariant aciwt;



- Y pwysau gwleidyddol;
- Sut y gellir symud y gyllideb tuag at fwy o wariant ar atal sylfaenol i wireddu'r nodweddion a ganfuwyd;
- Beth allai natur model ariannu ar gyfer System Genedlaethol Gwella lechyd fod, a sut fyddai hyn yn berthnasol i ffrydiau ariannu Llywodraeth Cymru.

3) Sut fedrai Llywodraeth Cymru fesur eu 'perfformiad' yn seiliedig ar y nodweddion a adnabuwyd. Mae mesur perfformiad yn aml yn sbarduno'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno er mwyn cwrdd â'u targedau a gall hyn annog gweithio mewn seilos, amddiffynoldeb a blaenoriaethu. Mae hefyd yn creu bylchau mewn gwybodaeth; os nad ydyn ni'n mesur y 'pethau iawn' sut y gwyddom ei fod yn newid? Bydd yr agwedd hon ar y gwaith yn adeiladu ar waith Comisiwn Bevan ac lechyd Cyhoeddus Cymru, a bydd yn ymroi i archwilio a chynnig mesurau 'perfformiad' a fydd yn gweithredu i sbarduno newid lle mae'r mwyaf o angen amdano ar gyfer dealltwriaeth o'r canlyniad defnyddol. Bydd y rhain hefyd yn medru monitro cynnydd a dangos a ydym yn symud tuag at wireddu System Lles Cenedlaethol. Fel y cyfryw dylai'r gwaith hwn gynnwys ceisio symud y ffocws o'r tymor byr i'r hirdymor, ac o allbynnau i ganlyniadau, gan sicrhau mai'r hyn sy'n cael ei fesur yw i ba raddau mae dinasyddion a'u cymunedau'n derbyn y gwasanaeth gorau a mwyaf addas.

Mae angen i'r gwaith gyflawni canlyniadau allweddol erbyn diwedd Rhagfyr 2019 er mwyn trwytho Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol y Comisiynydd; ar wahân i hyn, mae'r amserlen isod yn ddangosol; rydyn ni'n hapus i dderbyn cynigion sy'n awgrymu trefniadau cyflawni amgen.

Hydref - Rhagfyr	Ymchwil a chwmpasu cychwinnol i gynnwys ymgysylltiad seiliedig ar ddesg ac ymgysylltiad rhanddeiliaid
Rhagfyr - Ionawr	Crynhoi at ei gilydd gasgliadau ac opsiynau ar gyfer argymhellion
Ionawr	Cwblhau awgrymiadau dethol ar gyfer eu cynnwys yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol
Chwefror	Cynhyrchu'r adroddiad terfynol ar gyfer ei ddefnyddio'n fewnol ac allanol

Bydd y Comisiynydd yn sefydlu gweithgor o arbenigwyr i weithredu fel 'seinfwrdd' ac i'w chynghori ar y gwaith.

Bydd angen i'r darparwr/wyr:

- A) Weithio gyda swyddfa'r Comisiynydd i gytuno ar gynllun prosiect o fewn yr amserlen ar gyfer cyflwyno.
- B) Gytuno ar fabwysiadu ymagwedd tuag at y prosiect mewn ffordd sy'n defnyddio'r pum dull o weithio o fewn y Ddeddf (gweler uchod).
- C) Fod yn barod i gydweithredu, mewn partneriaeth ag eraill.



- D) Adeiladu ar argymhellion a disgwyliadau blaenorol a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd, yn ogystal ag edrych ar arfer gorau o fannau eraill.
- E) Coladu'r dystiolaeth a gasglwyd yn gyfres o allbynnau (ar gyfer eu defnyddio'n fewnol ac allanol), wedi eu hysgrifennu mewn iaith blaen ddealladwy.
- F) Rhoi data crai a dadansoddiad i'r Comisiynydd ar gyfer ei ddefnyddio'n fewnol yn y swyddfa.

Ein cyllideb ddangosol ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn yw £25,000.

Bydd y darparwr/wyr yn gweithio gyda'r Comisiynydd rhwng Medi 2019 ac Ionawr 2020, gyda'r bwriad o gyhoeddi argymhellion yn Rhagfyr 2019.

Cytunir ar contract yn rhoi manylion am dermau ac amodau rhwng y darparwr/wyr a'r Comisiynydd cyn i'r gwaith gychwyn.

Y gofynion

Mae'r gofynion canlynol yn orfodol:

- Profiad o ddadansoddi llawer iawn o wybodaeth i ffurfio casgliadau ehangach;
- Bod yn gyfarwydd â'r sector iechyd yng Nghymru a phenderfynyddion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol iechyd;
- Bod yn gyfarwydd â modelau buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cyhoeddus ehangach;
- Dealltwriaeth hollgynhwysfawr o'r hyn y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gobeithio'i gyflawni, drwy ofynion cyfreithiol a hefyd ei bwriadau ehangach;
- Ymrwymiad gweladwy i weithio mewn dulliau newydd sy'n cynorthwyo gweithrediad y Ddeddf, gan facsimeiddio cyfleoedd ar gyfer dysgu ac adeiladu perthynas â swyddfa'r Comisiynydd a chyfrannu at feysydd gwaith eraill sydd ar y gweill.

Hefyd, Byddai'n ddefnyddiol os oes gennych brofiad o weithio mewn meysydd sy'n berthnasol i:

- Atal a gwariant ataliol;
- Modelau iechyd a llesiant amgen.

Eich cynnig

Dylai eich cynnig gynnwys:

1. Yr agweddau y byddech yn eu mabwysiadu i gyflawni'r gwaith y manylir arno uchod.
2. Sut fyddech chi'n cwrdd â'r gofynion a amlinellir uchod i gyflawni'r gwaith mewn dull sy'n cynorthwyo pwyslais y Comisiynydd ar gydweithredu, gweithio mewn partneriaeth a macsimeiddio dysgu.
3. Syniadau ar gyfer ymgymryd â'r gwaith hwn mewn dull arloesol a chydlynus gan gyfeirio'n benodol at y modd y gall y Comisiynydd a chyrff cyhoeddus ddefnyddio'r dadansoddiad i ehangu amcanion y Ddeddf.



4. Dadansoddiad llawn o gostau yn erbyn allbynnau.

Amserlen

Os gwelwch yn dda anfonwch eich cynigion at contactus@futuregenerations.wales 'At Sylw Elle Henley-Herat' erbyn 5pm ar ddydd Llun 16 Medi. Os wnewch chi gyrraedd y rhestr fer, byddwch yn cael eich gwahodd i gyflwyno eich syniadau mewn sesiwn yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar ddydd Llun, 23 o Fedi, gyda'r nod o ddechrau ar y gwaith yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar ddydd Llun 7 Hydref. Wedyn bydd angen cytuno ar contract rhwng y darparwr/wyr a'r Comisiynydd.